O ganlyniad i'r achos Covid-19, cytunwyd ni fyddwn yn agor cyfarfodydd y bwrdd i aelodau'r cyhoedd hyd yn oed hyd y gellir ei rhagweld, felly bydd crynodeb o'r cyfarfod yn cael ei gyhoeddi yn amlinellu'r hyn a drafodwyd.

Briff y bwrdd ar gyfer y Cyfarfod a gynhaliwyd am 10am ar 26 Mawrth 2020.

Croeso
Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan egluro, oherwydd yr achos Covid-19, y cytunwyd na fyddwn yn agor y sesiwn i aelodau'r cyhoedd a darllennwyd y datganiad a ganlyn: "Yn unol â darpariaeth Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyniadau i Gyfarfodydd) 1960 penderfynir bod cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd wedi'u heithrio o'r cyfarfod hwn ar y sail y byddai yn niweidiol i fudd y cyhoedd i gynnal y cyfarfod hwn yn gyhoeddus oherwydd argyfwng iechyd digynsail COVID-19. "Felly yn unol â Rheol Sefydlog 7.5.2 gofynnir i'r bwrdd gytuno, oherwydd argyfwng iechyd digynsail COVID-19, na all y bwrdd gwrdd yn bersonol hyd y gellir rhagweld. Felly byddwn yn cytuno i redeg y cyfarfod trwy ddulliau electronig/teleffoni yn hytrach nag mewn lleoliad corfforol. Mae hyn yn golygu na all aelodau'r cyhoedd fynychu'n bersonol nac arsylwi ar lein. Yn ein rhybudd cyhoeddus o gyfarfod y bwrdd iechyd gwnaethom gadarnhau ein bod wedi penderfynu peidio â chynnal ein cyfarfodydd yn gyhoeddus, penderfyniad yr ydym wedi'i wneud er budd gorau amddiffyn y cyhoedd, ein staff ac aelodau'r bwrdd. "Fodd bynnag byddwn yn cytuno i gyhoeddi crynodeb o gyfarfod y bwrdd ar ein gwefan o fewn wythnos o'r cyfarfod." Nodwyd bod gwerddarlledu'r cyfarfod ar gyfer y cyhoedd yn rhan o gynlluniadau dyfodol y bwrdd ond byddai ceisio ei weithredu nawr yn dargyfeirio staff gwasanasethau digidol i ffwrdd o gefnogi timau clinigol i barhau i ddarparu gofal a gwasanaethau yn ystod yr achos.
Datganiadau Buddiant
Nid oedd unrhyw rai.
Minutes of the Previous Meeting
These were approved.
Materion yn Codi

Nid oedd unrhyw rai.
Log Gweithredu
Nodwyd y log gweithredu a chytunwyd y dylid datblygu log ‘arfaethedig’ ar wahân i ddal unrhyw gamau nad oedd angen sylw arnynt ar unwaith o ystyried yr achos Covid-19.
Adroddiad y Cadeirydd
Nodwyd hwn.
Adroddiad y Prif Weithredwr
Amlygwyd y pwyntiau canlynol: (i) <u>Covid-19</u> - Nid oedd y bwrdd iechyd bellach yn gweithredu o fewn ‘busnes fel arfer’ oherwydd yr achosion a gwnaed addasiadau i’r ffordd yr oedd gwasanaethau’n cael eu darparu; - Mae’r ymateb gan y staff wedi bod yn rhyfeddol ac mae’r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn yn anhygoel, gyda’r bwrdd iechyd yn y cyfnod cyflawni o ystyried cyflymder y newid; - Roedd amseroedd ymweld bellach wedi’u cyfyngu, gydag ychydig eithriadau, i leihau nifer yr ymwelwyr ar safleoedd i ddiogelu cleifion, staff a chymunedau lleol a’r cam nesaf fyddai atal ymweld o gwbl; - Roedd angen cydnabod yr effaith ar y gweithlu oherwydd nifer y staff yn ynysu ei hunain, gyda rhai adrannau wedi gostwng gan 50%; (ii) <u>Mewnosod Falf Aortig Trawslinol (TAVI)</u> - Ymddiheiriwyd i gleifion a’u teuluoedd a oedd wedi profi oedi cyn cyrchu’r driniaeth a’r niwed a achoswyd; - Gyda gofid i’r bwrdd iechyd ffeindio eu hyn yn y sefyllfa hon, ond roedd wedi gwella ers hynny, ond ni chymerodd hyn y niwed a’r trallod yr oedd wedi’u hachosi. (iii) <u>Cynllun Blynyddol</u> - Nodwyd bod y cynllun blynyddol wedi’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ond roedd ar adeg benodol ac roedd yr achos Covid-19 wedi ei ddisodli.
Diweddariad ar y Coronafeirws (Covid-19)
Trafodwyd y pwyntiau canlynol: - Hyd at 25 Mawrth 2020, roedd 628 o achosion wedi’u cadarnhau yng Nghymru, gyda 21 o achosion newydd yn ardal y bwrdd iechyd y diwrnod hwnnw yn erbyn cyfanswm o 70;

- Er bod achosion bellach yn cael eu cyflwyno i ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, nid oedd y sefyllfa yn y cyfnod pandemig eto, a oedd yn rhoi cyfle i'r sefydliad baratoi;
- Sefydlwyd drws blaen pwrpasol ar gyfer cleifion a oedd â symptomau yn adran achosion brys Ysbyty Treforys yn ogystal â phroses symlach yn yr uned asesu yn Ysbyty Singleton;
- Roedd angen ystyried y system gyfan i benderfynu ar y cleifion y gellid eu trin yn y gymuned yn hytrach nag o fewn ysbytai a sut y gellid symud y rhai yr oedd angen eu derbyn yn ddiogel i gyfleusterau eraill cyn gynted ag y bo hynny'n briodol;
- Y disgwyl oedd gweld pedair gwaith y derbyniadau brys fel arfer, a allai fod tua 400 o gleifion y dydd, ac roedd angen prosesau i sicrhau bod llif ar waith i ddarparu capasiti;
- Roedd profion staff yn parhau ond roedd rhai heriau mewn perthynas â chaffael y citiau profi;
- Nawr bod arwahanrwydd cymdeithasol ar waith yn llawn, y gobaith oedd y byddai rhywfaint o welliant yn ystod y tair wythnos nesaf;
- Roedd y tîm gwerthuso swyddi wedi cwblhau'r broses i sefydlu disgrifiad swydd band pedwar i alluogi myfyrwyr meddygol i weithio o fewn byrddau iechyd prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda;
- Roedd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol a oedd wedi nodi canolfannau hamdden y gellid eu defnyddio fel ysbytai maes;
- Roedd dysgu'n cael ei rannu ar draws sawl fforwm yng Nghymru yn ogystal ag edrych ar feysydd eraill i lywio a modelu prosesau;
- Byddai cefnogaeth iechyd meddwl i staff a chymunedau yn rhan hanfodol o raglen adfer y bwrdd iechyd;
- Roedd Wifi ar gael ledled y safleoedd ac roedd dyfeisiau symudol ar gael i alluogi'r rheini ar wardiau i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd;
- Talwyd teyrnged i bawb a gymerodd ran yng ngoleuni'r cyfan a gyflawnwyd hyd yma.

Mewnosod Falf Aortig Trawslinol (TAVI)

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Rhoddwyd ymddiheuriadau diffuant am ganfyddiadau'r adroddiad a gofid oedd bod rhai cleifion wedi marw wrth aros am y driniaeth;
- TAVI oedd y weithdrefn y dechreuodd y bwrdd iechyd ei chynnig yn 2009 fel dewis arall ar gyfer llawfeddygaeth y galon agored i'r rheini sydd angen amnewid falf aortig trwy weithdrefn lai ymledol;
- Daeth yn amlwg yn 2017-18 bod pryderon ynghylch yr amseroedd aros am wasanaeth a cynhaliodd y bwrdd iechyd adolygiad o'r cleifion a fu farw tra ar y rhestr aros, ac arweiniodd y canfyddiadau hynny at gomisiynu adolygiad allanol gan y Coleg Brenhinol y Meddygon;

- Roedd yr adolygiad allanol yn edrych ar nodiadau achos meddygol 32 o gleifion a fu farw ar y rhestr aros rhwng 2015-18;
- Yn ogystal ag edrych ar gadw cofnodion, dewis cleifion a gweithredu'r llwybr, ystyriodd yr adolygiad y tebygolrwydd bod hyd yr aros yn effeithio ar y canlyniad ac unrhyw dor-dyletswydd gofal;
- Yn y cyfamser, cymerodd y bwrdd iechyd gamau ar unwaith;
- Roedd y bwrdd wedi cael gwybod am y broses trwy ei sesiynau mewn pwyllgor a gwnaed llawer o waith i wella'r gwasanaeth cyn derbyn yr adroddiad terfynol;
- Roedd y bwrdd wedi bod yn glir ei fod yn hanfodol bod yn agored ac yn dryloyw gyda'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt, a chysylltwyd â phawb yr adolygwyd achosion eu perthnasau a chynnig cefnogaeth;
- Roedd Coleg Brenhinol y Meddygon wedi canfod bod y gofal wedi bod yn anfoddhaol mewn 23 o'r 32 achos a bod yr aros wedi achosi niwed, gan arwain at dorri dyletswydd;
- Canfu hefyd fod gwahaniaethau o fewn cynlluniau triniaeth, diffyg eglurder wrth weithredu'r llwybr yn ogystal â materion yn ymwneud â chadw cofnodion, prydlondeb ar gyfer atgyfeiriadau a gweithio amlddisgyblaethol;
- Derbyniwyd yr holl argymhellion a wnaed fel rhan o'r adolygiad allanol a datblygwyd cynllun gweithredu manwl;
- Yn ychwanegol at yr adolygiad nodyn achos, roedd Coleg Brenhinol y Meddygon wedi ymweld â'r safle yn Ysbyty Morriston i asesu'r gwasanaeth cyfredol ym mis Gorffennaf 2019. Er bod yr adroddiad terfynol yn dal i aros, roedd y casgliadau cychwynnol yn gyson ag asesiad y bwrdd iechyd bod llawer o gynnydd a wnaed eisoes mewn perthynas â'r camau gweithredu a argymhellir, gyda chamau gweithredu pellach ar y gweill;
- Yn dilyn canfyddiadau'r adolygiad cychwynnol o achosion, comisiynwyd adolygiad nodiadau achos pellach o unrhyw glaf a fu farw ar y rhestr aros ers dechrau'r gwasanaeth yn 2009; mae'r perthynas agosaf wedi cael gwybod;
- Rhoddwyd sicrwydd bod yr holl randdeiliaid allweddol wedi cael gwybod am yr adolygiad a'r canfyddiadau dilynol;
- Rhoddwyd sicrwydd bod yr holl randdeiliaid allweddol wedi cael gwybod am yr adolygiad a'r canfyddiadau dilynol.

Cyflwyniad Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys

Derbyniwyd a nodwyd cyflwyniad yn rhoi diweddariad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ynghylch gwaith diweddar.

Adroddiadau Materion Allweddol

(i) Pwyllgor Perfformiad a Chyllid

Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid yn ei gyfarfodydd ym mis Ionawr a mis Chwefror 2020.

(ii) Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a gynhaliwyd ym mis Ionawr a mis Chwefror 2020..

(iii) Gweithlu a Phwyllgor Datblygu Sefydliadol

Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfodydd y Gweithlu a'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol ym mis Chwefror 2020.

Diweddariad ar Berfformiad Gofal Heb ei Drefnu

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Cafwyd trafodaeth fanwl yng nghyfarfodydd diweddar y pwyllgorau Perfformiad a Chyllid ac Ansawdd a Diogelwch;
- Bu cynnydd mewn rhai meysydd ar ôl gweithredu'r cynllun gwella;
- O ganlyniad i'r achosion o Covid-19, roedd rhai meysydd craffu ar berfformiad wedi cael eu gwrthod, er enghraifft yr ymyrraeth gan Uned Gyflenwi GIG Cymru.

Adroddiad Perfformiad y Bwrdd Iechyd

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Gwelwyd rhywfaint o welliant o ran gofal wedi'i gynllunio a heb ei drefnu;
- Roedd y tîm perfformiad yn adolygu pa agweddau ar berfformiad a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â gofal clinigol, gan y byddai staff yn dal i gael eu cofnodi, nid yn unig i alluogi llunio fersiwn gryno o'r adroddiad, ond hefyd i ddangos effaith Covid-19
- Roedd y materion capasiti yn ymwneud â gallu gyda gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) bellach wedi'u datrys ac roedd yr heriau perfformiad yn ymwneud â'r ffordd y rheolwyd y rhestr aros. Byddai naratif yn cael ei ychwanegu at adroddiadau yn y dyfodol i egluro hyn.

Sefyllfa Ariannol

Trafodwyd y pwyntiau canlynol::

- Gor-wariant o £ 1.197m oedd y sefyllfa yn ystod y mis, gyda gorwariant cronnus o £ 13.4m, yn erbyn diffyg a ragwelwyd o £ 16.3m;
- Roedd hyder y byddai'r targed diwedd blwyddyn yn cael ei gyflawni;
- Roedd mecanwaith ar waith i ddal gwariant o ganlyniad i Covid-19.

Cynllun Blynyddol 2020/21 mewn Cyd-destun Tair Blynedd

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Bu cydweithio rhwng strategaeth, cyllid a'r gweithlu i ddatblygu'r cynllun;
- Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynghori bod proses y cynllun blynyddol i gael ei ‘seibio’ yng ngoleuni’r achosion o Covid-19;

- Roedd y cynllun yn y fformat a rannwyd gyda'r bwrdd yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2020 wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn gosod y llinell sylfaen;
- Byddai'n cael ei ddefnyddio gan y bwrdd iechyd i gefnogi ei adferiad o Covid-19 a helpu i gynllunio'r dyfodol wrth symud ymlaen;
- Y cyngor ar hyn o bryd oedd nad oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynlluniau blynyddol neu dair blynedd gael eu cyflwyno ar ddiwedd y flwyddyn..

Dyraniadau Cyllideb ac Ariannol

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Oherwydd yr achosion o Covid-19, ni fyddai digon o amser i drafod pob cyllideb gyda'r uned berthnasol neu'r tîm corfforaethol cyn ei chyhoeddi;
- Roedd yn hanfodol bod cyllidebau'n cael eu gosod er mwyn darparu llinell sylfaen ar gyfer gwaith KPMG (cymorth ariannol allanol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru) ar ôl derbyn yr adroddiad yn ogystal â mesur effaith Covid-19;
- Nodwyd y broses i sefydlu'r cyllidebau yn yr adroddiad;
- Fe'i derbyniwyd tra byddai'r cyllidebau'n cael eu monitro, cydnabuwyd y byddai gwariant na ellir ei osgoi oherwydd Covid-19 na fyddai deiliaid cyllideb yn cael ei ddwyn i gyfrif amdano.

Adroddiad ar Bartneriaethau GIG Cymru

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Canslwyd cyfarfod mawr y bwrdd rhwydwaith trawma a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 30 Mawrth 2020 ac yn lle hynny, gofynnir i'r uwch swyddogion cyfrifol ym mhob sefydliad i rith-lofnodi'r asesiad parodrwydd fel y byddai yn ei le ar ôl i'r achos Covid-19 fynd heibio a gallai gwaith i weithredu'r rhwydwaith ail-ddechrau.

Partneriaethau Allanol Allweddol

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Daethpwyd i gytundeb rhwng y bwrdd iechyd a chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol i ailffocysu'r rhaglenni a ariennir trwy'r byrddau partneriaeth rhanbarthol i flaenoriaethu Covid-19 a byddai trafodaethau terfynol yn cael eu cynnal trwy fwrdd partneriaeth rhanbarthol rhithwir yr wythnos ganlynol;
- Cyflwynwyd cynnig ‘Hospital 2 Home’ wedi’i ddiweddaru i Lywodraeth Cymru fel rhan o’r broses cynigion am yr arian trawsnewidiol sy’n weddill a disgwylir y canlyniad yn fuan;
- Byddai angen i fyrddau'r sector cyhoeddus sefyll i lawr dros dro o ystyried yr hinsawdd sydd ohoni ac roedd hyn yn cael ei weithio trwy'r fforwm cydnerthu lleol.

Adroddiadau'r Grwpiau Cynghori

(i) Fforwm Partneriaeth Leol

Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol y fforwm partneriaeth lleol, gydag aelodau'r bwrdd yn cael eu cynghori bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal trwy gydol yr achosi Covid-19..

(ii) Fforwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol

Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol y fforwm gweithwyr iechyd proffesiynol, gydag aelodau'r bwrdd yn cael eu cynghori bod y grŵp wedi'i ailsefydlu yn dilyn hiatws ac y byddai ei gadeirydd yn dod yn aelod cyswllt o'r bwrdd.

Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd yr amcanion yn unol ag amcanion corfforaethol a gwerthoedd y bwrdd iechyd ac fe'u datblygwyd trwy ymgynghoriad;
- Byddai'r Gweithlu a'r Pwyllgor OD (datblygu sefydliadol) yn monitro cynnydd;
- Cymeradwywyd cynllun cydraddoldeb strategol 2020-2024 yn amodol ar y diwygiadau a drafodwyd.

Cytundebau Tymor Hir a Chytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer 2020-21

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Yn unol â chylchlythyrau iechyd Cymru, roedd yn ofynnol dod â chytundebau lefel gwasanaeth bwrdd a chytundebau tymor hir i'w cymeradwyo;
- Roedd yr amserlenni wedi cael eu dwyn ymlaen erbyn dau fis felly byddent yn cael eu cymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn yr oeddent yn ymwneud â hi;
- Roedd £ 177m o wasanaethau yn cael eu darparu i fyrddau iechyd eraill a phrynwyd £ 36m gan eraill;
- Er bod y materion ariannol yn ymwneud â'r cytundebau obstetreg gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi'u datrys, roedd angen trafodaethau o hyd ynghylch y manylion gweithredol;
- Roedd 92 o gytundebau ar waith hefyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg o ganlyniad i'r newid i ffin Pen-y-bont ar Ogwr yr oedd y gwaith papur bellach yn dechrau ei dderbyn;
- Cytunwyd ar y cytundebau tymor hir a'r cytundebau lefel gwasanaeth a nodwyd yn unol â chylchlythyr iechyd Cymru 2019/014 a rheolau sefydlog y bwrdd iechyd..

Llywodraethu Rhwydwaith Trawma Mawr - Cynnal Rhwydwaith Cyflenwi Gweithredol

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Ystyriwyd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar gyfer cynnal y rhwydwaith cyflenwi gweithredol gan y Pwyllgor Archwilio ac ni wnaed unrhyw newidiadau;
- Byddai'n cael ei gylchredeg i bob sefydliad yn y rhwydwaith trawma mawr;
- Er bod gweithrediad y rhwydwaith trawma mawr wedi'i oedi, roedd angen cytuno ar y trefniadau cynnal ar gyfer y rhwydwaith cyflenwi gweithredol gan fod y bwrdd iechyd wedi cyflogi staff;
- Cymeradwywyd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth.

Cofrestr Risg y Bwrdd Iechyd

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Ers y diweddariad diwethaf i'r bwrdd, roedd pwyllgorau bellach yn dechrau ystyried y risgiau a ddyrannwyd iddynt;
- Roedd y broses rheoli risg yn cael ei chryfhau ar sail adborth gan gyfarwyddwyr gweithredol a phwyllgorau;
- Roedd nifer o risgiau wedi dod yn faterion ers hynny, fel Covid-19, ac roedd angen ystyried sut y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu.

Materion Allweddol

(i) Pwyllgor Iechyd a Diogelwch

Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020**.**

(ii) Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl

Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2020, a dywedwyd wrth yr aelodau bod pwerau gwrandawiadau rhyddhau rheolwyr ysbytai wedi'u hatal oherwydd bod angen i aelodau hunan-ynysu. Cytunwyd ar hyn gan Lywodraeth Cymru ac nid oedd unrhyw risg gyfreithiol.

Materion Llywodraethu Corfforaethol

Derbyniwyd a nodwyd adroddiad yn amlinellu materion llywodraethu corfforaethol gan gynnwys cymhwyso'r sêl gyffredin, cylchlythyrau iechyd Cymru a chylch busnes y bwrdd.

Unrhyw Fusnes Arall

(i) Cerddor

Dywedwyd wrth y bwrdd fod cerddor wedi cynnig perfformio ym meysydd parcio safleoedd ysbytai yn unol â chanllawiau pellhau cymdeithasol fel bod staff yn gwybod eu bod yn cael eu hystyried a bod diolch am y gwaith a wnânt. Croesawyd y teimlad y tu ôl i'r cynnig yn gynnes gan y bwrdd a byddai'r logisteg yn cael ei ystyried

Nid oedd unrhyw fusnes pellach a chaewyd y cyfarfod.